# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1483(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At: Ieuan Wyn Jones:**

Yn y sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 3 Mai 2006, yng nghyd-destun y drafodaeth ynghylch Grampian Country Food, codasoch fater y gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth Ffrainc i'w diwydiant dofednod. Addewais y byddwn yn ymchwilio i'r mater.

Bellach, ar ôl ymgynghori â DEFRA, gallaf gadarnhau mai gwir y gair fod Ffrainc a'r Eidal wedi llunio pecyn o fesurau er mwyn cynorthwyo'u diwydiant, ond deellir i'r Comisiwn gael ei hysbysu am y rhain yn unol â'r rheolau ar gyfer cymorth gwladwriaethol. Os nad yw wedi gwneud felly'n barod, bydd y Comisiwn yn ystyried y pecyn a chyhoeddi'i benderfyniad o blaid neu yn erbyn ei dderbyn. Rwy'n deall bod amryw o'r Aelod-wladwriaethau wedi dwyn pwysau ar y Comisiwn i sicrhau na chaniateir mantais annheg.

Fel y gwyddoch chi, bydd pob cymhorthdal gwladwriaethol (cenedlaethol) yn ddarostyngedig i fesurau rheoli Ewropeaidd er mwyn peidio ag amharu ar gystadleuaeth. Fel rheol, dylid hysbysu'r Comisiwn am gymhorthdal a roir yn sgil achos o glefyd a derbyn ei gymeradwyaeth. Wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cymhorthdal, bydd y Comisiwn yn ystyried a yw'r cymhorthdal arfaethedig yn dilyn cyfres o reolau manwl. Rwy'n deall fod rhai Aelod-wladwriaethau wedi hysbysu'r Comisiwn am fesurau cymorth sy'n berthnasol i achosion o ffliw adar yn eu tiriogaeth a bod y Comisiwn eisoes wedi cymeradwyo rhai ohonynt o leiaf.

Pe ceid tystiolaeth fod Aelod-wladwriaeth heb hysbysu'r Comisiwn am fesurau cymorth, neu fod y mesurau cymorth eu hunain heb fod yn unol â'r rheolau ynghylch cymorthdaliadau gwladwriaethol, byddai'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth honno i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w harchwilio. Fodd bynnag, ymddengys nad felly y mae hi y tro hwn.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1492(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At:Mark Isherwood:**

Cyfeiriaf at y cwestiwn a godasoch mewn cwestiynau atodol ar 3 Mai ynghylch y fferm wynt arfaethedig ar y môr sef Gwynt y Môr.

Mae gofyn i brosiectau gwynt ar y môr dderbyn caniatâd o dan naill ai'r Electricity Act 1989, sydd yn swyddogaeth Yr Adran Masnach a Diwydiant, neu'r Transport or Works Act 1992, sydd yn swyddogaeth a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ychwanegol at hyn, mae'r rhan helaethaf o ddatblygiadau morol yn gorfod cael caniatâd o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd (FEPA) 1985, sydd yn swyddogaeth y Cynulliad a'r Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949, sydd yn swyddogaeth yr Adran Drafnidiaeth drwy Uned Amgylchedd a Chaniatadau Morol (MCEU) Llywodraeth y DU.

Mae Gwynt y Môr, y prosiect gwynt arfaethedig ar y môr, yn ceisio caniatâd o dan Ddeddf Drydan 1989 ac mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn ei ystyried ar hyn o bryd cyn dod i benderfyniad. Mae'r weithdrefn ar gyfer y broses caniatáu prosiectau gwynt ar y môr wedi'i hatgyfnerthu ac mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn gydlynydd yn achos prosiectau drwy Gymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghorai yn y broses hon yn sgil

y Ddeddf Drydan a hi hefyd yw'r corff awdurdodi yn sgil Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985(FEPA).

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi sylwadau ar y cynnig a daw'r rhain yn rhan o orchwyl yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant wrth iddo ystyried y cais.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Denise Idris-Jones AC a gododd y cwestiwn gwreiddiol.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1485(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog**

**At: Lisa Francis:**

Yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 3 Mai, addewais y byddwn yn ymchwilio i'ch pryder parthed â'r Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, i ddarganfod yn neilltuol ai cywir oedd dweud mai Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr a Choleg Brenhinol y Nyrsys oedd yn gyfrifol am yr adolygiad.

Yn dilyn adroddiadau lleol ac yn y cyfryngau oedd yn awgrymu'n anghywir mai adolygiad a baratowyd gan y colegau ydoedd, ysgrifennodd yr Athro Shaughn O'Brien o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr yn uniongyrchol at Mr Tony Hurrell, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn ei lythyr, 'roedd yr Athro O'Brien yn cydnabod hefyd fod Ymddiriedolaeth y GIG yng Ngheredigion wedi cywiro hyn.

Gofynnodd Mr Hurrell i Alison Wiliams, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth, ysgrifennu at yr Athro O'Brien i egluro'r sefyllfa. Rwy'n deall bod teitl gwreiddiol y datganiad i'r wasg wedi bod yn anfwriadol gamarweiniol efallai, ac ymddiheurwyd am hyn. Roedd cynnwys y datganiad, fodd bynnag, yn hollol gywir a phwysleisiwyd hyn gan randdeiliaid lleol ac yn y cyfryngau.